SFLWS28

Cynnal safonau hylendid wrth ymdrin a storio nwyddau mewn cyfleuster logisteg

Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â chynnal safonau hylendid wrth ymdrin a storio nwyddau mewn cyfleuster logisteg. Mae’n cynnwys safonau hylendid personol a’r defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE) i ddiogelu’r gweithredwyr a’r nwyddau.

Mae’r safon hon yn berthnasol ar gyfer pob gweithredwr ar bob lefel mewn gweithrediadau logisteg. Gallai’r gweithredwyr, er enghraifft, fod yn gweithio ym maes warws a storio, trafnidiaeth neu anfon nwyddau ymlaen.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi materion iechyd, diogelwch a diogeledd yn ymwneud â'r nwyddau a'r amodau storio mewn cyfleuster logisteg
2. cynnal hylendid personol wrth ymdrin â nwyddau a'r amodau storio yn unol â gofynion sefydliadol
3. nodi a defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) i gynnal safonau hylendid wrth ymdrin a storio nwyddau
4. nodi unrhyw ofynion arbennig ar gyfer cynnal ansawdd y nwyddau a'r amodau storio yn y cyfleuster logisteg
5. ymdrin â nwyddau gan ddefnyddio dulliau a chyfarpar ymdrin yn unol â gofynion sefydliadol
6. gwaredu mathau gwahanol o wastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a gweithdrefnau sefydliadol
7. nodi ac ymateb i broblemau yn ymwneud â chynnal safonau hylendid sefydliadol
8. cofnodi'r gwaith a wnaed yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
9. cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol a'r holl ofynion amgylcheddol, cyfreithiol, diogelwch a gweithredu sy'n berthnasol i safonau hylendid wrth ymdrin a storio nwyddau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y materion iechyd, diogelwch a diogeledd sy'n berthnasol i ymdrin a storio nwyddau mewn cyfleuster logisteg
2. natur a nodweddion y nwyddau sydd yn cael eu storio mewn cyfleuster logisteg
3. y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) y dylid ei ddefnyddio i gynnal safonau hylendid wrth ymdrin a storio nwyddau mewn cyfleuster logisteg
4. y safonau hylendid perthnasol sydd yn angenrheidiol gan y sefydliad ar gyfer y nwyddau a'r amodau storio
5. y gofynion ar gyfer cynnal y nwyddau a'r amodau storio mewn cyfleuster logisteg
6. y dulliau gwahanol o waredu gwastraff a ddefnyddir gan y sefydliad
7. y problemau sy'n ymwneud â chynnal hylendid wrth ymdrin a storio nwyddau mewn cyfleuster logisteg
8. eich rolau a'ch cyfrifoldebau eich hun a'ch cydweithwyr i gynnal safonau hylendid mewn cyfleuster logisteg
9. sut i gwblhau dogfennau a chynnal cofnodion
10. y gweithdrefnau sefydliadol a'r gofynion amgylcheddol, cyfreithiol, diogelwch a gweithredu perthnasol sy'n ymwneud â chynnal safonau hylendid wrth ymdrin a storio nwyddau

Geirfa

Amodau storio: amgylchol, wedi ei oeri, sych, awyr agored, dan do, wedi ei awyru, ar wahân, mynediad cyfyngedig

Dulliau ymdrin: â llaw, mecanyddol, disgyrchiant

Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol, rheolwr llinell, goruchwyliwr, cwsmer/cleientiaid

Gofynion amgylcheddol, cyfreithiol, diogelwch a gweithredu rheoliadau diogelwch, codau ymarfer, cyfyngiadau llwyth, rheoliadau amser gwaith, rheoliadau trafnidiaeth

Cyfarpar Diogelu Personol (PPE): siacedi llachar, hetiau caled, diogelwch llygaid, menig, esgidiau uchel

Cyfarpar: e.e. offer, teclynnau, peiriannau, lifftiau, cludwyr, craeniau a systemau silffoedd a rheseli

SFLWS28

Cynnal safonau hylendid wrth ymdrin a storio nwyddau mewn cyfleuster logisteg

Datblygwyd gan	Lantra
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2022
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Maw 2027
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	SFLWS28
Galwedigaethau perthnasol	Warws a Dosbarthu, Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu, Manwerthu a chyfanwerthu , Galwedigaethau Ymdrin â Nwyddau a Storio, Galwedigaethau Storio Nwyddau Elfennol
Cyfres/Set	Warws a Storio, Gweithrediadau Lleoliad Diwylliannol
Geiriau Allweddol	hylendid; ymdrin; storio; storfa; nwyddau; deunyddiau; lleoliad; warws; logisteg